# System Rheoli Amgylcheddol
# 7.6 Datganiad Preifatrwydd Cynaliadwyedd

Wedi'i gyhoeddi: 01 Ebrill 2021

| | |
|---|---|
| **Awduron:** | Tîm Cynaliadwyedd |
| **Cymeradwywyd gan** | Heidi Smith |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2025 |
| **Cyfeirnod y cymal:** | EcoCampus ac ISO 14001(2015) |
| **Peidiwch ag argraffu'r weithdrefn hon** | |



# Datganiad Preifatrwydd Cynaliadwyedd

## 1 Pwy ydym ni?

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Ystadau a Gwasanaethau Campws ac rydym yn darparu cymorth ac arweiniad i'r Brifysgol ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae hyn yn cynnwys yr argyfwng hinsawdd, ein hamgylchedd naturiol, ein hamgylchedd gweithio a'n teithio.

## 2 Pa fath o wybodaeth a gaiff ei chasglu gennych chi?

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall fod yn briodol i'r Tîm Cynaliadwyedd gasglu gwybodaeth bersonol gennych chi (aelod staff neu fyfyriwr). Gall hwn fod yn ddata personol sy'n gysylltiedig â'ch enw, eich rhif staff/myfyriwr, eich blwyddyn a'ch cwrs academaidd (myfyriwr yn unig) a'ch cyfeiriad e-bost.

## 3 Sut a pham bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Caiff yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ei defnyddio gan y Tîm Cynaliadwyedd i roi cymorth i staff a myfyrwyr a gall hyn gynnwys y gwasanaethau canlynol:

- Hyrwyddo ein gwasanaethau
- Cyflwyno'r Wobr Dinesydd Byd-eang
- Cyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau gwirfoddoli
- Cyflwyno System Rheoli Amgylcheddol y Brifysgol

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon amdanoch chi i ddarparu ein gwasanaethau ym Mhrifysgol Abertawe. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data yw cydsyniad gan destunau'r data ac, felly, mae gan fyfyrwyr a staff yr hawl i dynnu eu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg ond gall hyn effeithio ar hyd ein gallu i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir.

I dynnu eich cydsyniad yn ôl, e-bostiwch sustainability@abertawe.ac.uk, gan nodi "GDPR – Tynnu Cydsyniad yn ôl" ym mhennyn yr e-bost a chan fanylu ar ba wybodaeth yr hoffech iddi gael ei dileu.

## 4 Fydd prosesau gwneud penderfyniadau a phroffilio'n awtomataidd?

Ni fydd y Tîm Cynaliadwyedd yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion gwneud penderfyniadau a phroffilio'n awtomataidd.

## 5 Pwy sydd â mynediad at eich gwybodaeth?

Caiff gwybodaeth amdanoch chi ei rhannu â staff priodol y Brifysgol ar y sail bod angen iddynt wybod. Yn achlysurol, gall gwybodaeth gael ei rhannu â thrydydd partïon priodol er mwyn darparu gwasanaethau i destunau'r data. Am ragor o

wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, gweler datganiadau preifatrwydd y Brifysgol:

- Datganiad preifatrwydd y Brifysgol
- Datganiad preifatrwydd myfyrwyr

# 6 Pa mor hir bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?

Byddwn yn cadw'r data personol rydych chi'n ei roi i ni am saith mlynedd yn unol â Pholisi Rheoli Cofnodion y Brifysgol (ceir rhagor o wybodaeth yma). Caiff eich data ei storio yn y system TG fewnol a diogel.

# 7 Fydd eich data yn cael ei drosglwyddo dramor?

Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon.

# 8 Ble galla i gael rhagor o wybodaeth?

Prifysgol Abertawe yw'r Rheolydd Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau'r unigolion yn unol â Deddf Diogelu Data (DPA) 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Data a gellir ei e-bostio yn dataprotection@abertawe.ac.uk.

Gellir gweld polisi preifatrwydd **staff** y Brifysgol yma.

Gellir gweld polisi preifatrwydd **myfyrwyr** y Brifysgol yma.

# 9 Rheoli Fersiynau

| Dyddiad: | Fersiwn: | Diweddariad: |
|---|---|---|
| 20/09/18 | 1.0 | Dogfen newydd |
| 01/04/21 | 2.0 | Wedi'i ddiweddaru gyda strwythur newydd |
| 01/05/24 | 3.0 | Wedi diweddaru enw Ystadau ac wedi diweddaru enw'r Wobr Dinesydd Byd-eang. |